**Sesiwn 2000 - 2001 Rhif 59**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MAWRTH, 20 MAWRTH 2001

## RHAN 1 - ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2pm**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru** (30 munud)

Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Dadl ar Argyfwng Clwy’r Traed a’r Genau**

**Bydd y Trefnydd yn gwneud cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn gerbron y Cynnig Heb Ddyddiad Trafod canlynol a gyflwynwyd ar 14 Mawrth 2001, i newid trefn busnes a restrir yn Rheol Sefydlog Rhif 6.11 ac i ddrafftio dadl fer Janice Gregory**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn trafod, ar y cyfle cyntaf a gaiff, Argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau a'i effaith ar y Diwydiant Ffermio ac economi ehangach Cymru.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol.

(1)+(2)+(3)+(4)+(5)

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileer popeth ar ôl ‘y Cynulliad Cenedlaethol’, gan roi’r canlynol yn ei le:

‘yn cydnabod yr argyfwng aruthrol sy’n wynebu amaethyddiaeth a’r economi wledig ehangach yng

ngoleuni Clwy'r Traed a'r Genau'.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

Mae'n galw ar y Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Materion Gwledig i:

- Fynd ati yn ddiymdroi i gomisiynu Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru gyfan ar y cyd â'r Bartneriaeth Wledig, a fydd yn amlinellu mesurau i leddfu'r argyfwng presennol sy'n wynebu'r sectorau amaethyddol, hamdden a thwristiaeth o ran incwm, ac a fydd wedi hynny yn hybu adferiad llawn. Dylai Trysorlys y DU ariannu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn llawn, a hynny uwchlaw'r Bloc Barnett Blynyddol.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

Mae'n galw ar y Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Materion Gwledig i:

- Gydnabod y llanastr llwyr a wnaed wrth sefydlu Tasglu Michael Meacher ar Glwy'r Traed a'r Genau.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

Mae'n galw ar y Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Materion Gwledig i:

- Sicrhau bod pob penderfyniad sy'n ymwneud â difa da byw yn seiliedig ar gyngor gwyddonol yn unig ac y'u trafodir hwy'n llawn ymlaen llaw gyda'r ffermwyr yr effeithir arnynt gan benderfyniadau o'r fath.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwaneger ar ddiwedd y cynnig:

Mae'n galw ar y Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Materion Gwledig i:

- Hyrwyddo Polisi Amaethyddol ar gyfer y tymor hwy a fyddai'n cynnwys yr elfennau canlynol:
- Ailadeiladu rhwydwaith o ladd-dai bach a chanolig eu maint
- Hyrwyddo cadwyni cyflenwi bwyd lleol

☐ Strategaeth i gynorthwyo ac i ddatblygu'r diwydiant prosesu bwyd
☐ Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng yr adwerthwr, yr archfarnchad, y proseswr a'r ffermwr

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

**Dirprwyo Swyddogaethau'r Ddeddf Trafnidiaeth i'r Prif Weinidog**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gweithredu o dan adrannau 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Trafnidiaeth 2000, neu yn unol â'r ddeddf honno (sydd ar gael ar wefan HMSO: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000038.htm )

i Brif Weinidog y Cynulliad, heblaw am y rhai hynny na ellir trwy ddeddf eu dirprwyo yn y modd hwn. Ni fydd cynnwys y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth weithredu'r swyddogaethau uchod.

**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:*

- yn datgan ei gred bod polisi trafnidiaeth sydd wedi ei integreiddio'n llawn yn hanfodol bwysig i ddatblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru;
- yn gresynu at sefyllfa bresennol llawer o'n hisadeiledd trafnidiaeth;
- yn mynegi pryder ynghylch diffyg pwer y Cynulliad Cenedlaethol dros bolisi rheilffyrdd a thros yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA);
- ac yn galw ar y Cabinet i:

a. Drafod ar frys gyda Llywodraeth y DU i gael cynrychiolaeth i Gymru ar yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a phwerau a fydd yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i roi cyfarwyddiadau i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol.
b. Argymell i Lywodraeth y DU y dylai Railtrack ddod o dan reolaeth gyhoeddus.
c. Sefydlu Awdurdod Trafnidiaeth i Deithwyr yng Nghymru i gydlynu darpariaeth y gwasanaethau.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol.

(1)+(2)+(3)+(6)+(7)+(9)+(10)

(4)+(5)+(8)+(11)

**1. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Dileu "datgan" yn llinell gyntaf y pwynt bwled cyntaf, a rhoi "ailadrodd" yn ei le.

**2. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Ychwanegu ar ôl "Cymru" ar ddiwedd y pwynt bwled cyntaf:

"fel y nodir yn *Rhoi Cymru'n Gyntaf* a *gwellcymru.com*"

**3. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Dileu'r ail bwynt bwled a rhoi'r canlynol yn ei le:

"yn gresynu at y tanfuddsoddi a fu yn yr isadeiledd trafnidiaeth gan lywodraethau Ceidwadol olynol o 1979-1997, ac yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid a gyhoeddwyd gan y Cynulliad."

**4. David Davies (Mynwy);**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt bwled 2:

"ac yn gresynu at benderfyniad y Llywodraeth i ostwng y cyllid ar gyfer prosiectau adeiladu ffyrdd."

**5. David Davies (Mynwy);**

Ychwanegu fel pwynt bwled newydd 4:

"yn gresynu at y trethi uchel ar danwydd a delir gan yrwyr yng Nghymru."

**6. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Ychwanegu cyn "Drafod" yn llinell gyntaf pwynt bwled (a):

"Yn cadarnhau nod y Llywodraeth Bartneriaeth i"

**7. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt bwled (a):

"ar faterion sy'n ymwneud â Chymru"

**8. David Davies (Mynwy);**

Dileu pwynt (b) a rhoi'r canlynol yn ei le:

"cydnabod mai system reilffordd wedi'i phreifateiddio yw'r unig ffordd o sicrhau cyllid gan y sector preifat ar gyfer rheilffyrdd, ond yn credu bod angen awdurdod diogelwch newydd."

**9. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Dileu pwynt bwled (b) a rhoi'r canlynol yn ei le:

"Hyrwyddo gyda Llywodraeth y DU fodd o gyflwyno isadeiledd rheilffyrdd diogel a modern, sydd wedi'i seilio ar lefelau uwch o reolaeth gyhoeddus"

**10. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Dileu pwynt bwled (c) a rhoi'r canlynol yn ei le:

"Cydweithredu gyda Phwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth y Cynulliad wrth archwilio'r achos o blaid sefydlu Awdurdod neu Awdurdodau Trafnidiaeth Teithwyr i Gymru, ynghyd â modelau eraill ar gyfer sicrhau trafnidiaeth integredig er mwyn cyd-drefnu darpariaeth gwasanaethau; gan wneud y cyflwyniadau priodol i Lywodraeth y DU lle bynnag y bo angen"

**11. David Davies (Mynwy);**

Ychwanegu fel pwynt (d) newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Rhoi mesurau ymarferol ar waith i gynorthwyo mathau gwahanol o drafnidiaeth gyhoeddus."

**Dadl fer a ailgyflwynwyd** (i bara am 30 munud)
**Janice Gregory (Ogwr): Troseddu: Nid Argraff yn Unig**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 22 Mawrth 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**